# CYNGOR CYMUNED LLANBERIS A NANT PERIS

## POLISI RHEOLI COFEBION O FEWN Y FYNWENT

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae mynwentydd wedi bod yn rhan o dirwedd Cymru ers oes yr efydd. Mae cymdeithas ar hyd yr oesoedd wedi rhoi gwerth ar y ffordd maent yn gofalu am eu cyndadau. Mae Cynghorau Cymuned wedi etifeddu llawer o fynwentydd lle mae nifer o gofebion bellach mewn cyflwr gwael.

1.2 Ers 1995 mae sawl cofnod o ddamweiniau angheuol a nifer o ddamweiniau llai difrifol yn bodoli oherwydd cofebion mewn mynwentydd ar draws y Deyrnas Unedig. Mae llawer o gofebion ar feddi wedi dod yn ansefydlog a gallent fod yn beryg i'r cyhoedd sydd yn ymweld a'r fynwent neu yn gweithio o fewn y fynwent. Mae hyn yn amlygu'r angen i sicrhau bod proses archwilio mewn bodolaeth.

1.3 Pwrpas y polisi hwn ys sicrhau bod Mynwent Cymunedol Llanberis a Nant Peris yn ddiogel ar gyfer, Aelodau'r Cyngor, Ymwelwyr, Contractwyr a Threfnwyr Angladdau a'u staff ag eraill a all fod yn y fynwent. Mae'r polisi yn cynnwys trefniadau sydd angen eu rhoi mewn lle ar gyfer asesu, monitro y gwaith sydd ei angen ar gyfer cofebion. Mae'r polisi yn amlygu cyn belled a phosib canllawiau cyfredol ag ymarfer da.

1.4 Bydd y polisi yn rhoi gwybodaeth glir i rhanddeiliaid cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned mewn sicrhau diogelwch o fewn y Fynwent ar gyfer ymwelwyr ac eraill ac i ddangos pa weithred bydd y Cyngor yn ei gymryd i ddelio gydag unrhyw gonsyrn am ddiogelwch sydd yn cael ei adnabod drwy archwiliadau rheolaidd.

1.5 Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol.

### 2. SAFONAU

2.1 Y safon cyfredol ar gyfer codi cofebion yw'r BS 8415. Disgrifir cofebion fel adeileddau sydd yn coffau'r ymadawedig. Gall y adeileddau fod yn garreg bed, cerrig yn amgylchynu'r bed a.y.b. sydd wedi eu codi gan Saer Maen Coffa.

### 3. CYFRIFOLDEBAU

3.1 Mae Cyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris yn cydnabod ei Ddyletswydd Gofal o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 o ran darparu mannau gwaith diogel i aelodau, contractwyr a'u staff ac ymestyn y ddyletswydd hon i gynnwys diogelwch aelodau'r cyhoedd ac eraill sy'n ymweld â'u mynwentydd neu'n gweithio ynddynt.

3.2 Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957, i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod eu safleoedd yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel.

## 4. RHEOLI COFEBION

4.1 O ddyddiad mabwysiadu'r polisi hwn bydd cofebion yn cael eu hadnabod fel rhai- newydd a rhai sydd mewn bodolaeth cyn dyddiad y polisi.

4.1.1 **COFEBION NEWYDD** - cofebion sydd yn cael eu codi ar ôl dyddiad mabwysiadu'r polisi yma. Bydd angen i bob cofeb newydd gael eu codi gan Saer Maen Coffa cymwys. Gall gymhwyster fod unai drwy gymdeithas genedlaethol gydnabyddedig fel BRAMM (British Register of Accredited Memorial Association) neu drwy ddangos tystysgrifau perthnasol, neu oherwydd bod blynyddoedd o brofiad yn y maes. Bydd rhaid i bob cofeb gael ei chodi yn unol â safonau a gydnabyddir yn genedlaethol gan gynnwys BS 8415.

4.1.2 **COFEBION YN BODOLI** - cofebion sydd wedi eu codi cyn dyddiad mabwysiadu'r polisi - gall y rhain beri perygl uniongyrchol i'r cyhoedd os ydynt mewn cyflwr diffygiol. Os felly mae'r Cyngor angen rhoi sylw ar unwaith iddynt er mwyn atal y posibilrwydd o anaf.

## 5. ARCHWILIAD

5.1 Er mwyn cydymffurfio a deddfwriaeth a chanllawiau cyfredol Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mae angen i bob cofeb o fewn mynwent y Cyngor gael ei archwilio pob pum mlynedd i sicrhau bod pob un mewn cyflwr sefydlog a ddim yn peri perygl i ymwelwyr, aelodau, contractwyr ac eraill.

5.2 *Gall aelodau o'r Cyngor Cymuned gynnal archwiliadau os yw'r Cyngor yn bwriadu hyfforddi aelod a bod yr aelod yn llwyddiannus mewn cymhwyster City and Guilds mewn archwilio ag asesu diogelwch cofebion.*

5.3 Bydd y Cyngor yn sicrhau gwasanaeth oddi wrth gontractwyr dilys sydd â chymhwyster cydnabyddedig ac yn aelod or NAAMM (National Association of Memorial Masons) neu gyda blynyddoedd o brofiad yn y maes.

5.4 Disgwylir i'r contractwyr gyflwyno adroddiad lawn ar gyfer pob cofeb a bydd yr adroddiadau yn cael eu cadw gan y Cyngor Cymunedau mewn ffurf digidol.

5.5 Bydd y Cyngor Cymuned yn gwahodd tri chontractwr am bris i wneud y gwaith asesu a bydd Pwyllgor y Fynwent yn ystyried y prisiau ac yn argymell contractwr i'r Cyngor llawn.

5.6 Bydd pob cofeb yn derbyn asesiad drwy archwiliad gweledol a prawf â llaw i edrych am unrhyw symudiad.

## 6. ASESIADAU AC ADRODDIADAU

6.1 Disgwylir adroddiadau gynnwys gwybodaeth fel a ganlyn:

- Cofebion angen gweithred uniongyrchol a’r gweithredu sydd wedi bod
- Cofebion sydd angen sylw ond o fewn amserlen sbesiffig (e.e. 12 mis)
- Nifer o gofebion sydd wedi eu harchwilio (disgwylir bod yr archwiliad cyntaf yn asesu pob cofeb)
- Nifer o gofebion yn y fynwent

6.2 Bydd pob cofeb yn cael eu dosbarthu i dri chategori, credir bod y categorïau yma yn rhesymol i sicrhau gwarchod y cyhoedd.
- Categori 3 - Prawf â llaw – dim symudiad
- Categori 2 – Prawf â llaw – ychydig o symudiad
- Categori 1 – Prawf â llaw – Symudiad

6.3 Dim ond cofnodion dau archwiliad bydd yn cael ei gadw gan y Cyngor Cymuned ar unrhyw adeg er mwyn dangos yr archwiliadau hanesyddol.

6.4 Bydd atodlen waith yn cael ei Cynllunio ar ddiwedd yr asesiad er mwyn cynllunio’r gwaith sydd ei angen ar y cofebion gan gynnwys rhai fydd angen archwiliad mewn 12 mis a 5 mlynedd.

6.5 Er enghraifft - gall yr adroddiadau gael eu cyflwyno fel a ganlyn gan gynnwys llun o’r gofeb o gyn ac ar ôl unrhyw weithred:

| **MYNWENT CYNGOR CYMUNED LLANBERIS A NANT PERIS** | | |
|---|---|---|
| **DYDDIAD YR ARCHWILIAD** | | |
| **CWMNI/CORFF ASESU** | | |
| **Categori** | **Disgrifiad** | **Canlyniad** |
| **3** | Prawf â llaw – dim symudiad | Archwiliad pellach o fewn 5 mlynedd. |
| **2** | Prawf â llaw – ychydig o symudiad | • ystyried gwaith cynnal i leihau’r risg yn bellach os yn bosib.<br>• Hysbysu’r Teulu/perchennog y bedd<br>• Archwilio pellach o fewn 12 mis |
| **1** | Prawf â llaw (methiant) – Symudiad yn cyflwyno risg uniongyrchol | • Gweithredu’n uniongyrchol<br>• Hysbysu’r Teulu/perchennog y bedd<br>• Archwilio o fewn 12 mis os nad yw’r gwaith cynnal wedi ei gwblhau. |

## 7. CYFATHREBU

7.1 Er mwyn lleihau unrhyw adborth negyddol ag achosi loes i ymwelwyr y fynwent cyn gweithredu’r polisi hwn, bydd gwybodaeth yn cael eu hysbysu drwy'r wefan, tudalennau cyfryngau cymdeithas a phapurau bro er mwyn rhoi gwybod i’r gymuned o’r gwaith sydd wedi eu cynllunio. Bydd rhybuddion yn cael eu gosod ar fwrdd hysbysu’r fynwent.

7.2 Bydd pob rhybudd yn rhoi gwybod am sut i gysylltu â’r clerc am fwy o wybodaeth.

7.3 Bydd y Cyngor yn cysylltu â pherchennog y bedd neu deulu'r ymadawedig go gyfer eu hysbysu bod canlyniad o fethiant wedi bod i archwiliad ar y gofeb a sut y gallent ymdrin â'r mater. Os bydd perchennog neu deulu'r ymadawedig yn anfodlon a'r penderfyniad bod y gofeb yn ansefydlog bydd cyfarfod safle yn cael ei drefnu lle gellir rhoi tystiolaeth o'r archwiliad.

## 8. GWEITHRED UNIONGYRCHOL

8.1 Os adnabyddir bod cofeb yn ddiffygiol bydd rhaid cymryd gweithred uniongyrchol er mwyn lleihau'r risg neu i amddiffyn unrhyw berson ddod i gysylltiad â'r perygl.

8.2 Dylai unrhyw weithred uniongyrchol gael ei gofnodi gan gynnwys lluniau.

8.3 Bydd arddull o roi polyn (coed) tu gefn i'r gofeb a rhwymo'r gofeb fel mesur dros dro tra bod cysylltiad a pherchennog y bedd yn cael ei wneud; a'r gwaith i wneud y gofeb yn ddiogel wedi ei gwblhau.

8.4 Caniateir 8.3 am 12 mis yn unig yna os na fydd y gwaith wedi ei wneud neu os methir dod o hyd i'r perchennog yna fe osodir y gofeb i orwedd.

8.5 Bydd rhybudd yn datgan paham mae'r weithred uniongyrchol wedi ei wneud i'r gofeb yn cael ei osod hefyd ar y gofeb yn achos 8.3 a 8.4.

8.6 Efallai nad yw 8.3 neu 8.4 yn weithred sydd yn sicrhau Iechyd a Diogelwch ymwelwyr ac eraill i'r mynwent, os yw hyn yn debygol yna mae'r hawl gan y Cyngor Cymuned yn unol a Erthygl 16 o'r Local Authorities' Cemeteries Order 1977 I symud y gofeb I leoliad diogel o fewn y fynwent neu I symud o'r fynwent yn gyfan gwbl.